CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Mawrth 2018 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Y CAE CHWARAE:

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y Cae Chwarae. Byddai'r Clerc yn archebu toiledau i'r cae chwarae o ddechrau Mis Mai tan ddiwedd Mis Medi. Roedd y Cyngor yn dal i aros i'r Cyngor Sir archwilio adnoddau'r Cae Chwarae:

CYLLID

Cytunwyd mai Eryl Jones a'i Gwmni, Llanybydder fyddai'n gyfrifiol am yr agwedd hon ar ran y Cyngor. Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

TRO BEECHES:

Angen gosod pystion.

SLCC:

Derbyniwyd gwybodaeth am ochr gyfreithiol gweithgarwch y Cyngor. Roedd y Clerc wedi derbyn ffurflen oddi wrth Cyngor Tre Caerfyrddin i'w gyflwyno i'r Cynghorwyr yn holi a fyddent yn dymuno derbyn tâl blynyddol. Byddai'n rhaid i'r ffurflen cael ei llenwi a'i dychwelyd i'r Clerc cyn dechrau mis Mai.
Achwynwyd mai ffurflen Saesneg yn unig yr oedd y Clerc wedi ei dderbyn oddi wrth Cyngor Tre Caerfyrddin.

CEFNOGAETH

Penderfynwyd cefnogi:Gofal mewn Galar; Ysgol Gynradd Llanllwni.

TYLLAU YN YR HEWL

Ger Park Villa a'r Swyddfa Bost.

SBWRIEL:

Roedd soffa wedi ei adael ar y ffordd ger Pentop. Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Mai 2018 am 8.00yh.